

Tribiwnlys Anghenion  
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational  
Needs Tribunal for Wales

## Adroddiad Byllyddol 2004-2005



Hydref 2005

Y mae copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn ar gael gan:

TAAAC,

Uned 32,

Parc Menter Ddole Road,

Llandrindod, Powys, LD1 6PF.

Ffôn: 01597 829800

Ffacs: 01597 829801

e-bost: [tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk](mailto:tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk)

Tribiwnlys Anghenion  
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational  
Needs Tribunal for Wales

At: Ms Jane Davidson AC  
Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes  
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Hydref 2005

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy ail Adroddiad Blynyddol fel Llywydd  
Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae'r adroddiad yn manylu  
ar weithgareddau'r Tribiwnlys am y flwyddyn 1 Medi 2004 i 31 Awst 2005.

Rhiannon Ellis Walker  
Llywydd, TAAAC

Uned 32, Parc Menter Ddole Road, Llandrindod, Powys, LD1 6PF  
Unit 32, Ddole Road Enterprise Park, Llandrindod Wells, Powys, LD1 6PF  
Llinell Gymorth | Helpline: 01597 829800  
Gweinyddu Cyffredinol | General Administration: 01597 829802  
Ffacs | Fax: 01597 829801 • E-bost | E-mail: [tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk](mailto:tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk)



**Cynnwys**

Rhagair y Llywydd	1
Datblygiadau	1
Hawliadau Anabledd	3
Y Ffordd o'n Blaen	3
Nifer yr Apeliadau AAA	5
Apeliadau AAA - y rhaniad rhwng bechgyn a genethod	5
Cyflymder Cwblhau	6
Apeliadau fesul AALI	7
Canlyniadau fesul AALI	9
Mathau o Apêl	10
Apêl yn ôl Natur yr Angen Addysgol Arbennig	11
Canlyniad yr Apeliadau: Cyffredinol	12
Canlyniadau'r Apeliadau: Ysgolion	13
Canlyniad yn ôl natur yr AAA	13
Monitro Ethnig	14
Hawliadau ar sail Anffafrio Oherwydd Anabledd	14
Apeliadau i'r Uchel Lys	14
Cwynion	14
Ysgrifenyddiaeth	15
Gwariant	15
Aelodau'r Tribiwnlys	16
Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys	16



## Rhagair y Llywydd

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ymwneud ag ail flwyddyn bodolaeth Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (SENTW), ac yn cyflwyno manylion ynglŷn â'n gweithgareddau rhwng Medi 2004 a diwedd Awst 2005.

Yn aml mae ail flwyddyn datblygiad sefydliad yn gyfnod diddorol, ac yn sicr bu hynny'n wir yn achos SENTW. Bellach cawsom gyfle i fwrw golwg yn ôl dros ein profiadau dechreuol, ac edrych ar yr hyn sydd wedi profi'n themâu a amlygodd eu hunain dro ar ôl tro, ac rydym yn awr yn edrych ymlaen at y sialensiau a'r sefyllfa newidiol sydd o'n blaenau.

Mae'n ymddangos bod defnyddwyr ein Tribiwnlys wedi dod yn fwy cyfarwydd â'n dulliau gweithredu, a'n gobaith yw eu bod yn gweld cysondeb yn y dulliau hynny, sy'n cael ei hybu gan faint cymharol fychan SENTW. Fodd bynnag, mae datblygiad ein diwylliant arbennig yn adlewyrchu dylanwad adborth a mewnbwn ein cwsmeriaid. Rwy'n hynod o ddiolchgar iddynt am ymhél â'r broses honno.

## Datblygiadau

### Ffug Wrandawriad

Yn anochel, mae natur statudol y penderfyniadau yr ydym yn dod iddynt, a'n rôl yn y broses o benderfynu apeliadau a hawliadau, yn sicrhau rhywfaint o ffurfioldeb. Y mae'n gwbl briodol bod y ffurfioldeb hwn yn nodwedd o'r gwaith yr ydym yn ymgymryd ag ef.

Fodd bynnag, mae aelodau SENTW, yr ysgrifenyddiaeth a minnau wedi ceisio lleihau ffurfioldeb diangen. Er mwyn gwneud hyn, yr ydym, yn ystod y flwyddyn, wedi ceisio gweithio mewn partneriaeth gyda'n defnyddwyr i ddeall y problemau o'u safbwynt hwy ac i ddangos yr hyn y gallant ei ddisgwyl gennym pan fyddant yn cyflwyno apêl i ni.

Un o'r ffyrdd yr ydym wedi gallu gwneud hyn oedd trwy gynnal ffug wrandawriad yn ein swyddfeydd yn Llandrindod. Gobeithio bod yr ymarfer hwnnw wedi profi'r un mor ddefnyddiol i'r rhai a ddaeth yno o'r AALI'au, y sector gwirfoddol a'r sector cyfreithiol ag y bu i ni o ran cyfleu'r hyn y mae arnom ei angen gan gyrff sy'n cymryd rhan. Yn sicr, yr oedd yr ymatebion a dderbyniwyd gennym yn awgrymu ein bod wedi cyflawni ein hamcanion, a bod y ffug wrandawriad wedi cael derbyniad da.

Y cam nesaf fydd darparu DVD/tâp fideo o'r ffug wrandawriad at ddefnydd AALI'au a rhieni fel cyfeirbwynt ynglŷn â'r hyn a allai ddigwydd mewn gwrandawriad. Bydd y cynhyrchiad yn cynnwys ffilm o drafodaethau'r panel cyn ac ar ôl y gwrandawriad - pethau nad yw defnyddwyr y Tribiwnlys yn cael gwybod

amdanynt fel rheol. Rydym yn gobeithio y bydd pob defnyddiwr, yn y modd hwn, yn gallu ennill rhywfaint o wybodaeth ymlaen llaw ynglŷn â beth i'w ddisgwyl mewn gwrandawriad.

## Cynnwys y Plentyn

Gellir dadlau bod yna un grŵp o ddefnyddwyr sydd heb gael darpariaeth gystal yn y gorffennol, sef y plant eu hunain. Yn ei adroddiad blynyddol diwethaf, galwodd Peter Clarke, Comisiynydd Plant Cymru, am i blant gael yr hawl i wneud apeliadau yn eu henw eu hunain. Mae hyn yn fater cymhleth, am amrywiaeth o resymau emosiynol a thechnegol, ond y mae'n un yr ydym yn mynd i'r afael ag ef ar y cyd â swyddfa'r Comisiynydd a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddai unrhyw gynigion sy'n cael eu cyflwyno'n gofyn ymgynghori trylwyr gyda'r rhai yr oeddynt yn effeithio arnynt. Yn naturiol, yr hyn sydd o'r pwys mwyaf yw bod y mater yn cael ei archwilio gyda'r sensitifrwydd pennaf i anghenion plant, a gyda golwg ar sicrhau nad ydynt yn agored i bwysau niweidiol na chamdriniaeth, nac yn dioddef anfantais o ganlyniad i ddatblygiadau yn y maes hwn.

Mae Pennod 3 Côd Ymarfer AAA Cymru yn canolbwyntio ar y rhan y mae Disgyblion yn ei chymryd yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae fy niddordeb wedi ei ennyn gan waith yn Lloegr sy'n anelu at ganfod dulliau creadigol o eiriol dros blant ac o ganfod a chyflwyno'u barn, dan amgylchiadau sydd weithiau'n anodd, ynglŷn â'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Y mae'n ofynnol dan y gyfraith fod AALI'au, fel rhan o'u datganiadau achos, yn rhoi gwybod i SENTW am farn y plentyn, neu'n cofnodi'r ffaith nad oedd modd canfod beth oedd ei farn. Rwy'n sylweddoli bod dirnad beth mae'r plentyn yn ei deimlo'n rhywbeth sydd ymhell o fod yn syml, a'i fod weithiau'n ymddangos yn amhosibl; ond hoffwn eu hannog i ystyried o'r newydd ddulliau o sicrhau bod hawliau'r plentyn yn cael ystyriaeth ddyladwy.

## Gwasanaethau Datrys Anghytundebau

Y mae'n galonogol bod 20 o AALI'au Cymru wedi dewis cydweithio i ddarparu dull unedig o ddarparu gwasanaethau datrys anghytundebau (DRS). Mae hyn yn ymddangos i mi'n ddatblygiad synhwyrol, ymroddedig a rhesymegol. Yn aml fe ofynnir i ni fel Tribiwnlys benderfynu ar apeliadau a allai, o bosib, fod wedi eu datrys mewn modd mwy priodol a chyflym ar lefel is. Y mae'n hanfodol cynnal hawl rheini i apelio, ac mae ein cyfranogiad hyd yn oed cyn gwrandawriad yn gallu canolbwyntio meddyliau. Fodd bynnag, hoffwn achub ar y cyfle hwn i annog AALI'au a Llywodraeth y Cynulliad i gymryd camau pellach i roi gwybod i rieni am y DRS a'r rôl bwysig y gall gwasanaethau o'r fath ei chwarae pa fo gan yr holl bartion ymrwymiad diffuant i'r broses.



## Rôl i Estyn?

Aeth Ysgrifennydd y Tribiwnlys a minnau i gyfarfod o Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad ym mis Mehefin. Gofynnodd Jane Davidson, mewn ymateb i ffigyrau a oedd yn amlygu nifer yr apeliadau a oedd wedi eu cofrestru fesul AALI, am farn y Tribiwnlys ynglŷn ag ymestyn cylch cyfrifoldeb Estyn i gynnwys ymchwilio i niferoedd yr apeliadau. Fel y gellir gweld hyd yn oed mewn darlleniad brysiog o'r adroddiad hwn, mae gan rai awdurdodau lleol nifer anghymesur o uchel o apeliadau o ystyried nifer eu disgyblion. Amhriodol fyddai i mi awgrymu'r rhesymau dros hynny, ond yn amlwg gall niferoedd uchel o apeliadau fod yn flinderus i rieni ac i staff Awdurdod Addysg Lleol, y gellir rhagdybio bod eu hadnoddau eisoes yn cael eu hymestyn i'r eithaf. Boed i apêl fynd ymlaen at wrandawriad llawn, neu gael ei thynnu'n ôl neu ei chaniatáu, mae AALI'au, rhieni a'r Tribiwnlys yn gwneud gwaith casglu a chyflwyno gwybodaeth i wahanol raddau. Unwaith eto, waeth beth fo'r canlyniad yn y pen draw, mae lefelau sylweddol o anniddigrwydd ymysg rhieni ynglŷn â phenderfyniadau AALI'au'n teilyngu ystyriaeth bellach. Rwy'n teimlo bod ymchwilio i'r rhesymau dros niferoedd uchel o apeliadau'n waith y gallai fod yn ddefnyddiol i gorff megis Estyn ymgymryd ag ef, ac y gallai Estyn gynnig awgrymiadau ymarferol i'r cyrff dan sylw hefyd.

## Hawliadau Anabledd

Eleni unwaith eto, mae nifer yr hawliadau anabledd yn isel iawn. Mae'r gwaith yn dal i fod yn gyfran fechan iawn o'n hymwneud ag apeliadau AAA. Mae'r adborth gan fy Nghadeiryddion yn dal i awgrymu bod ysgolion yn wynebau problemau wrth weithio i ddeall a chyflawni eu dyletswyddau dan y Ddeddf. Gallai nifer isel yr hawliadau awgrymu naill ai bod rhieni a'u plant yn fodlon ar y ddarpariaeth, neu fod yna anwybodaeth ynglŷn â'r hawl i wneud honiad o anffafrio oherwydd anabledd.

Rwy'n falch fod Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu grŵp i ystyried ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o hawliadau anabledd fel dull gweithredu; rwyf ar ddeall fod y grŵp yn disgwyl cynnig ffurfiol i gymryd y gwaith hwn yn ei flaen.

## Y Ffordd o'n Blaen

Efallai y bydd darllenwyr yn ymwybodol o'r cynigion a gafodd eu cyflwyno yn y Papur Gwyn **Gweddnewid Gwasanaethau Cyhoeddus: Cwynion, Unioni a Thribiwnlysoedd**. Mae'r rhain yn cynnwys creu asiantaeth weithredol newydd fel rhan o'r Adran Materion Cyfansoddiadol, i weinyddu tribiwnlysoedd. Er y bydd y cyfrifoldeb am weinyddu tribiwnlysoedd datganoledig megis SENTW yn aros gyda Llywodraeth y Cynulliad, y mae'n anochel y bydd unrhyw newidiadau bwriedig i'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli tribiwnlysoedd ar raddfa ehangach yn effeithio ar dribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y posibilrwydd na fydd apeliadau sy'n cael eu hanfon ymlaen gan dribiwnlys megis

SENTW yn mynd at yr Uchel Lys, yn y dyfodol, ond yn hytrach i dribiwnlys apeliadol newydd.

Croesawodd SENTW'r ffaith fod y Cyngor ar Dribiwnlysoedd wedi llywyddu Cynhadledd gyntaf y Tribiwnlysoedd Cymreig. Y mae bob amser yn braf cyfarfod cydweithwyr o dribiwnlysoedd dan awdurdodaethau eraill a dysgu o arferion eraill. Rydym hefyd wedi mwynhau gweithio gyda chydweithwyr o'r Tribiwnlysoedd Anghenion Cefnogaeth Ychwanegol sydd newydd eu sefydlu ar gyfer yr Alban, ac rydym yn dymuno pob llwyddiant iddynt yn eu hymdrechion.

Y mae'n ffrainc bod yn Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, yn enwedig mewn cyfnod pan fo agendâu AAA a'r tribiwnlysoedd yn symud yn eu blaenau'n gyflym. Rwy'n edrych ymlaen at oruchwylio datblygiad SENTW dros y flwyddyn i ddod, ar y cyd â chadeiryddion, aelodau ac ysgrifenyddion trawmroddedig y Tribiwnlys.


## Nifer yr Apeliadau AAA

Yn ystod y flwyddyn rhwng 1 Medi 2004 a 31 Awst 2005, derbyniodd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 147 o apeliadau mewn perthynas â phenderfyniadau ynglŷn ag AAA. O'r rhain, cafodd 127 (83.69%) eu cofrestru. Yr oedd 3 apeliad nad oeddem yn gallu eu cofrestru oherwydd nad oeddynt yn bodloni gofynion statudol; cafodd pedair eu tynnu'n ôl gan y rhieni cyn i'r apêl gael ei chofrestru; mae yna 13 o apeliadau pellach sy'n dal i fod ar y cam cyn-gofrestru: hynny yw, rydym yn aros am ragor o wybodaeth cyn y gall yr apeliadau hyn symud ymlaen at gofrestrriad llawn.

Yn ychwanegol at y 127 o apeliadau sydd wedi eu cofrestru, dygwyd ymlaen 35 o apeliadau na fu modd eu cwblhau yn ystod y flwyddyn Dribiwnlys flaenorol.

Y mae rhyw raddfa o gysondeb gyda chanlyniadau'r llynedd, pan dderbyniwyd 128 o apeliadau a chafodd 117 ohonynt eu cofrestru.


### Apeliadau AAA a gofrestrwyd, fesul blwyddyn Dribiwnlys



### Apeliadau AAA - y rhaniad rhwng bechgyn a genethod

Yn ystod y flwyddyn, cafodd 98 o apeliadau AAA yn ymwneud â bechgyn eu cofrestru; y ffigwr cyfatebol ar gyfer genethod/merched ifainc oedd 29.

Mae hyn yn dangos cynnydd, o flwyddyn i flwyddyn, yn y ganran o apeliadau a oedd yn ymwneud â bechgyn: y ffigyrau am 2003/04 oedd 72.6% (bechgyn) a 27.4% (genethod).



## Cyflymder Cwblhau

Mae'r adran hon yn ymwneud â pha mor hir, o ran diwrnodau gwaith<sup>1</sup>, oedd y cyfnod rhwng cofrestru apêl a chyhoeddi'r penderfyniad.

Mae nifer gyfartalog y diwrnodau gwaith a gymerwyd i gwblhau apeliadau wedi codi i 95, o gyfartaledd o 82 yn y flwyddyn flaenorol. Un rheswm am y cynnydd hwn oedd y cynnydd yn nifer y gwrandawiadau a gafodd eu gohirio. Cafodd 7 o wrandawiadau eu gohirio, gyda chyfarwyddiadau i un o'r partïon, neu'r ddau ohonynt, ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig bellach i gefnogi neu wrthwynebu'r apêl.

Nifer y penderfyniadau a gafodd eu cyhoeddi	31	Cafodd 1 apêl ei dileu
Nifer gyfartalog y diwrnodau gwaith	95	

<sup>1</sup> Yn unol â rheoliadau Tribiwnlys, nid yw'r canlynol yn cael eu cynnwys fel diwrnodau gwaith: Sadyrnau a Suliau, unrhyw ddiwrnod ym mis Awst, unrhyw ddiwrnod rhwng 25 Rhagfyr a 1 Ionawr (cynhwysol), a gwyliau banc.

Yr un oedd nifer gyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i gyhoeddi penderfyniad, sef 9.

Mae'r tabl isod yn dangos y modd y cafodd 119 o apeliadau eu cwblhau, a'r nifer sy'n disgwyl penderfyniad; bydd y rhain yn cael eu cludo ymlaen i'r flwyddyn Dribiwnlys nesaf. Er y cafwyd cynnydd yn nifer y penderfyniadau (o 25 i 31), mae'r ffigwr hwn i'w gyfrif am ostyngiad bychan yn y ganran o apeliadau a gafodd eu cwblhau (y ffigwr cyfatebol am y llynedd oedd 21.3%).

Rydym wedi gweld cynnydd bychan yn nifer yr apeliadau a gafodd eu tynnu'n ôl/eu hildio - o 50.4% i'r cyfanswm cyfunol cyfredol o 53.7%

Mae canran yr apeliadau a gafodd eu cofrestru ond sy'n aros gwrandawriad yn bur gyson â ffigwr y llynedd (26.54% o'i chymharu â 27.4% yn 2003/04).

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn, nid oes unrhyw apeliadau o'r flwyddyn Dribiwnlys 2003/04 yn aros heb eu cwblhau.

Penderfynwyd	31	19.14%
Tynnwyd yn ôl	45	27.78%
Ildiwyd	42	25.93%
Dilëwyd	1	0.62%
Yn disgwyl penderfyniad	43	26.54%

## Apeliadau fesul Awdurdod Addysg Lleol

Mae'r tabl hwn yn nodi nifer yr apeliadau a gafodd eu cofrestru fesul AALI yn ystod y flwyddyn Dribiwnlys 2004/05. Fel y gellir gweld, y mae o leiaf un apêl yn erbyn ei benderfyniadau wedi ei chofrestru yn erbyn pob AALI yn ystod y flwyddyn.


	2004/05	I bob 10,000 o boblogaeth yr ysgolion	2003/04	I bob 10,000 o boblogaeth yr ysgolion
Blaenau Gwent	3	2.97	0	0.00
Pen-y-bont ar Ogwr	3	0.99	2	0.86
Caerffili	1	0.37	3	0.96
Caerdydd	33	7.37	35	6.48
Sir Gaerfyrddin	6	2.44	5	1.78
Ceredigion	2	2.09	1	1.00
Conwy	4	2.58	8	4.44
Sir Ddinbych	6	4.04	0	0.00
Sir y Fflint	2	0.90	3	1.20
Gwynedd	3	1.85	3	1.57
Merthyr Tudful	2	2.22	0	0.00
Sir Fynwy	8	6.76	5	3.57
Castell-nedd Port Talbot	7	3.60	6	2.27
Casnewydd	30	13.62	15	6.00
Sir Benfro	2	1.17	0	3.33
Powys	3	1.61	7	0.00
Rhondda Cynon Taf	2	0.55	4	0.95
Abertawe	5	1.59	7	1.89
Torfaen	4	2.60	3	1.76
Bro Morgannwg	0	0.00	8	3.60
Wrecsam	1	0.61	2	1.05
Ynys Môn	1	1.06	0	0.00

## Canlyniadau fesul AALI

Mae'r tabl hwn yn dangos y canlyniadau yn 2004/05 fesul Awdurdod Addysg Lleol. Mae'r ffigyrau'n cynnwys apelïadau cofrestredig a ddygwyd ymlaen o 2003/04 ond a gafodd eu cwblhau yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mewn achosion lle na chafodd yr apêl ei chefnogi, y mae wedi ei chofnodi fel apêl a "wrthodwyd". Yr unig apêl a gafodd ei dileu yn ystod gwrandawriad oedd apêl mewn perthynas â phenderfyniad a wnaethpwyd gan Awdurdod Addysg Lleol Wrecsam.

AALI	Ildiwyd	Tynnwyd yn ôl	Cefnogwyd yn rhannol neu'n llawn	Gwrthodwyd neu dilëwyd yn ystod Gwrandawriad	Yn disgwyl penderfyniad
Blaenau Gwent			2		1
Pen-y-bont ar Ogwr		2			
Caerffili	1	1			
Caerdydd	16	11	4		10
Sir Gaerfyrddin	3		1		5
Ceredigion		1			1
Conwy	1	2	1		2
Sir Ddinbych	1		3	1	1
Sir y Fflint		1			1
Gwynedd	1	1			1
Merthyr Tudful		1		1	1
Sir Fynwy	3	4			4
Castell-nedd Port Talbot	1	4	2	1	3
Casnewydd	11	7	7	1	8
Sir Benfro			2		
Powys		4	2		
Rhondda Cynon Taf		1			1
Abertawe	2	2			3
Torfaen	2	1			1
Bro Morgannwg		1	2		
Wrecsam		1		1	
Ynys Môn				1	

## Mathau o Apêl



Math o Apêl	04/05 Cyfanswm	% o'r Cyfanswm	03/04 Cyfanswm	% o'r Cyfanswm
Gwrthodiad i asesu	32	25.20%	46	39.30%
Gwrthodiad i wneud Datganiad	14	11.00%	14	12.00%
Gwrthodiad i ailasesu	2	1.60%	2	1.70%
Yn erbyn penderfyniad i Beidio â Pharhau â Datganiad	3	2.40%	2	1.70%
Yn erbyn Cynnwys Rhannau 2 a 3	20	15.70%	21	18.00%
Yn erbyn Cynnwys Rhannau 2, 3 a 4	34	26.80%	13	11.10%
Yn erbyn cynnwys Rhan 3	12	9.40%	8	6.80%
Yn erbyn cynnwys Rhan 4	7	5.50%	6	5.10%
Yn erbyn cynnwys Rhannau 3 a 4	3	2.40%	5	4.30%
<b>Cyfanswm</b>	<b>127</b>		<b>117</b>	

Rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol, o flwyddyn i flwyddyn, yn nifer yr apeliadau yn erbyn gwrthodiadau AALI'au i asesu AAA plant, tra bod nifer yr apeliadau yn erbyn penderfyniadau i beidio â gwneud datganiad wedi aros yn sefydlog dros yr un cyfnod.


Y llynedd, yr oedd 51.3% o'r holl apeliadau cofrestredig yn ymwneud â phlant nad oedd datganiad wedi ei wneud ar eu cyfer. Bellach, mae'r ganran uchel honno'n ymddangos fel pe bai'n groes i'r tueddiad: Yn 04/05 syrthiodd y ffigwr



cyfatebol i 36.2% (o'i gymharu â 41% yn 2002/03). Yr oedd canran lawer uwch (63.8%) o'r apeliadau a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd yn ceisio herio penderfyniadau ynglŷn â naill ai ailasesu anghenion plant, cynnwys eu datganiadau, neu gynnal datganiadau.

## Apêl yn ôl Natur yr Angen Addysgol Arbennig

Mae'r wybodaeth isod yn rhestru apeliadau yn ôl natur yr AAA. Unwaith eto, rydym wedi cofnodi anghenion y cyfeiriwyd atynt gan rieni a/neu'r AALI adeg cyflwyno'r apêl. Fel y gellid disgwyl, y mae apeliadau ynglŷn ag Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig ac Anawsterau Dysgu Penodol i'w cyfrif am dros hanner yr holl apeliadau cofrestredig.



Math o AAA	% Apeliadau 2004/05	% Apeliadau 2003/04
Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig	29.6	22.2
Anawsterau Ymddygiad ac Emosiwn	8.8	6.8
Nam ar y Clyw	0.8	3.4
Anawsterau Dysgu Penodol (g.g. llythrennedd/dyspracsia)	22.4	33.3
Anawsterau Dysgu Cymedrol	4.0	0.9
Anawsterau Dysgu Difrifol	2.4	4.3
Anawsterau Lleferydd ac Iaith	9.6	5.1
AAA Lluosog	16.0	15.4
Arall/Anhysbys	6.4	1.7

## Canlyniad yr Apeliadau: Cyffredinol

Fel a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol, cafodd ychydig dros 80% o'r holl apeliadau a aeth ymlaen i wrandawriad llawn (h.y. ni fuont yn destun gorchymyn i'w dileu) eu cefnogi naill ai'n llawn neu'n rhannol. O'r 31 o apeliadau a aeth i wrandawriad llawn, cafodd 6 eu gwrthod.

Math o Apêl	Penderfyniadau a gafodd eu cyhoeddi 2004/05			Penderfyniadau a gafodd eu cyhoeddi 2003/04		
	Cefnog -wyd	Gwrthod-wyd	Dilëwyd	Cefnog -wyd	Gwrthod-wyd	Dilëwyd
Gwrthodiad i asesu		1		3	1	
Gwrthodiad i wneud Datganiad	1				2	
Gwrthodiad i ailasesu						
Yn erbyn penderfyniad i Beidio â Pharhau â Datganiad		1				
Yn erbyn cynnwys Rhannau 2 a 3	11			6		
Yn erbyn cynnwys Rhannau 2, 3 a 4	10		1	6		
Yn erbyn cynnwys Rhan 3	1	2		1		
Yn erbyn cynnwys Rhan 4	2	1		1	1	
Yn erbyn cynnwys Rhannau 3 a 4	1			3		
<b>Cyfanswm</b>	<b>26</b>	<b>5</b>	<b>1</b>	<b>20</b>	<b>4</b>	<b>0</b>

## Canlyniadau'r Apeliadau: Ysgolion

Gwrandawyd 15 o apeliadau a oedd yn ceisio dymchwel penderfyniadau a oedd yn ymwneud â'r ysgol a oedd wedi ei henwi yn rhan 4 datganiad plentyn. Y ffigwr cyfatebol am 2003/04 oedd 8. O'r 15 o apeliadau, cafwyd 4 achos lle na wnaed gorchymyn i newid rhan 4.

Mae'r canlyniadau ar gyfer yr 11 apêl arall wedi eu dangos isod:

	Cefnogwyd Newid Rhan 4 Datganiad	Cefnogwyd Newid Rhannau 3 a 4 Datganiad	Cefnogwyd Newid Rhannau 2, 3 a 4 Datganiad
Ysgol Brif Ffrwd a Gynhelir	0	1	1
Ysgol Arbennig Annibynnol wedi'i Chymeradwyo	0	0	9
Ysgol Arbennig a Gynhelir	0	0	0
Addysg Gartref	0	0	0

## Canlyniad yn ôl natur yr AAA

Apeliadau yn ôl Math	Penderfyniadau a gafodd eu cyhoeddi 2003/04		
	Cefnogwyd	Gwrthodwyd	Dilëwyd
Anhwylder yn y Sbectwm Awtistig	6	2	
Anawsterau Ymddygiad ac Emosiwn			
Nam ar y Clyw			
Anawsterau Dysgu Penodol (g.g. llythrennedd/dyspracsia)	11	1	1
Anawsterau Dysgu Cymedrol	2	1	
Anawsterau Dysgu Difrifol			
Anawsterau Lleferydd ac Iaith	3		
AAA Lluosog	4	1	
Arall/Anhysbys			
<b>Cyfanswm</b>	<b>26</b>	<b>5</b>	<b>1</b>

## Monitro Ethnig

Gwahoddir rhieni i gwblhau datganiad monitro ethnig sy'n cael ei anfon gyda'r hysbysiad o apêl.

	2004/05	2003/04
Bangladeshi	1	1
Affricanaidd Croenddu	1	1
Croenddu arall	0	0
Pacistanaid	0	2
Croenwyn	120	93
Arall	1	2
Heb eu llenwi	24	29

## Hawliadau ar sail Anffafrio Oherwydd Anabledd

Cafodd 1 hawliad ar sail anffafrio oherwydd anabledd ei gofrestru a'i wrando yn ystod 2004/05. Cafodd yr hawliad ei gefnogi. Cafodd hawliad arall ei gyflwyno, ond ar ddiwedd y flwyddyn Dribiwnlys yr oedd ar y cam cyn-gofrestru (yn aros am ragor o wybodaeth).

Mae'r nifer weddol fechan hon yn gwbl gyson â ffigurau 2002/03 a 2003/04.

## Apeliadau i'r Uchel Lys

Ar hyn o bryd gall rhieni apelio i'r Uchel Lys os ydynt o'r farn fod penderfyniad Tribiwnlys yn ddiffygiol ar sail pwynt cyfreithiol. Cafodd 2 apêl i'r Uchel Lys eu cofrestru yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn ystod y cyfnod adrodd. Y rhain yw'r heriau cyntaf yn yr Uchel Lys i benderfyniadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, a byddwn yn disgwyl y canlyniadau gyda diddordeb.

## Cwynion

Ni wnaed unrhyw gwynion ffurfiol am y Tribiwnlys yn ystod 2004/05.

## Ysgrifenyddiaeth

Hoffwn dalu teyrnged i waith caled Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys, ac yn enwedig i Mrs Jill Mouncer, Arweinydd y Tîm Apeliadau o ddechreuad y Tribiwnlys tan ei hymddeoliad ym Medi 2005.

### Gwariant - 1 Ebrill 2004 i 31 Mawrth 2005

Gwariant	2004/05 £(000'oedd)
Ffioedd a threuliau aelodau'r Tribiwnlys	74,236
Hyfforddiant i aelodau	6,493
Yr ymarfer ffug wrandawriad*	17,079
Hurio llety ar gyfer gwrandawriadau	26,232
Treuliau'r clercod	2,346
Treuliau apêl eraill (hawliadau gan dystion, cyfieithu ar y pryd etc.)	4,669
Cyflogau	111,310
Costau teithio a chynhaliaeth staff	2,692
Treuliau swyddfa	5,841
Costau argraffu	2,461
Rhent a threthi	17,652
Gwasanaethau, cynnal a chadw, a glanhau	2,280
Llai: ad-daliad i'r DfES am waith anabled yn 2003/04	(23,559)
<b>Cyfanswm</b>	<b>249,732</b>
(Cyfanswm 2003/04)	(407,000)

Yn wahanol i ffigyrau'r llynedd, mae ffigyrau gwariant 2004/05 yn ymwneud â gwaith blwyddyn lawn; yn naturiol, mae hyn yn effeithio ar gostau aelodau, llety a staff.

\*Yr oedd treuliau'r ffug wrandawriad yn cynnwys cyfieithu, hurio a chefnogaeth dechnegol, ffioedd aelodau a ffioedd proffesiynol, llety, ac arlwyyo.

## Aelodau'r Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn cynnwys yr aelodau canlynol, ac maent i gyd naill ai wedi llywyddu gwrandawiadau neu wedi eistedd arnynt yn ystod y flwyddyn 1 Medi 2004 i 31 Awst 2005:

Llywydd	Rhiannon Ellis Walker
Cadeiryddion	Mark Allen Jacqueline Blackmore Meleri Tudur
Aelodau Lleyg	Sandra Boyle Norman Donovan Gwyn Griffiths Kerena Marchant Gareth Roberts Siân Wyn Siencyn Susan Taylor Andrew Wilson

## Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys

Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn gyfrifol am weinyddu'r Tribiwnlys.

Ysgrifennydd	Huw Maguire	Ffôn: 01597 829803
Rheolwr y Tim Apeliadau	Siân Mills	Ffôn: 01597 829804
Swyddog Gwybodaeth	Pamela Sansom	Ffôn: 01597 829805
Clercod	Vikki Slaven	Ffôn: 01597 829806
	Vacancy	Ffôn: 01597 829802

Rydym hefyd yn gweithredu Llinell Gymorth y Tribiwnlys (01597 829800) a blwch post electronig: [tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk](mailto:tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk)